# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 28 Medi 2011** |
| Amser: | **09:30 – 11:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_28_09_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Mair Davies, Cadeirydd, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol**<br>**Paul Gimson, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol**<br>**Russell Goodway, Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol Cymru**<br>**Ian Cowan, Cadeirydd, Fferylliaeth Gymunedol Cymru**<br>**Chris James, Fferylliaeth Gymunedol Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 2. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru – Tystiolaeth gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (09:30 – 10:30)

2.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach am fodel fferyllfeydd cymunedol yr Alban, gan gynnwys ariannu gwasanaethau TG a rennir.

2.3 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach am y datganiad ar y cyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ynghylch cydweithredu.

## 3. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Tystiolaeth gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (10:30 - 11:30)

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch cyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y tystion i rannu â'r Pwyllgor ganlyniadau'r arolwg y maent yn ei gynnal i gontractwyr fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru o'r gwasanaethau ychwanegol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd lleol ac sy'n cael ei ddarparu, a pha wasanaethau fyddai o werth i'w cymunedau lleol ond nad ydynt wedi'u comisiynu gan y Bwrdd Iechyd lleol ar hyn o bryd.

## 4. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Cytuno ar y cylch gorchwyl (11:30 - 11:40)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio at gydbwysedd y ddarpariaeth rhwng cartrefi gofal preifat a chyhoeddus a'r llwybr i ofal preswyl yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon cylch gorchwyl drafft yr ymchwiliad at randdeiliaid ac y dylid rhoi pythefnos er mwyn iddynt gyflwyno eu sylwadau arno.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.